


# EIN STRATEGAETH NEWYDD AR GYFER DYFARNU GRANTIAU

2022-25

BBC
PLANT MEWN ANGEN
CHILDREN IN NEED

# EIN STRATEGAETH NEWYDD AR GYFER DYFARNU GRANTIAU YN FRAS

## Ein huchelgais strategol

Mae pob plentyn a pherson ifanc yn haeddu'r cyfle i ffynnu ac i fod y gorau y gallan nhw fod. Yn BBC Plant mewn Angen, rydym yn gweithredu lle mae'r angen mwyaf. Ein huchelgais yw creu newid parhaol, positif ledled y DU ar gyfer y plant a'r bobl ifanc sydd ein hangen fwyaf. Gyda'r BBC a'n partneriaid, ein nod yw ysbrydoli'r genedl i gefnogi ein gwaith.

## Ein hunaniaeth

**Ni yw elusen y BBC**

**Mae Plant a Phobl Ifanc wrth wraidd ein gwaith**

**Rydym wedi ein gwreiddio ledled y DU ac yn lleol**

**Rydym yn cynnig arweinyddiaeth feddylgar ym maes ariannu, ar gyfer plant a phobl ifanc yn y DU**

## Ein hegwyddorion - adeiladau ymddiriedaeth

### Rhannu pŵer

Symud penderfyniadau yn nes at y plant a phobl ifanc o gymunedau sy'n amrywiol o ran daearyddiaeth, cefndir a diddordeb, gan gydnabod mai nhw sydd yn y lle gorau i siapio ein gwaith.

### Gweithredu'n hyblyg

Sicrhau bod ein cyllid a'n prosesau yn ymatebol, yn hygyrch ac yn hawdd eu defnyddio, gan alluogi mudiadau i gynllunio ar gyfer y dyfodol a threulio mwy o'u hamser ar yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw.

### Defnyddio ein llais

Defnyddio ein safle a'n hasedau i ddatblygu ymwybyddiaeth ac empathi o'r materion dybryd sy'n wynebu plant a phobl ifanc yn y DU heddiw.

### Datblygu partneriaethau pwrpasol

Meithrin partneriaethau ar gyfer newid gan ddod â chymunedau, arbenigwyr a buddsoddwyr at ei gilydd a gweithio gyda nhw i siapio a datblygu atebion gyda phlant a phobl ifanc ac ar eu cyfer, yn genedlaethol ac yn lleol.

## Effaith ein cyllid - ein huchelgais yw creu newid positif a pharhaol ledled y DU i blant a phobl ifanc sydd ein hangen fwyaf

**Materion strategol â ffocws**
Er mwyn creu newid positif a pharhaol, rydym yn nodi Themâu Effaith allweddol rydym am fynd i'r afael â nhw yn strategol ar draws y DU. Mae'r rhain yn cynnig ffocws ar gyfer adeiladu partneriaethau, gweithio'n fwy cydweithredol a defnyddio ein safle a'n hasedau unigryw yn y DU.

**Ffocws sy'n seiliedig ar le**
Rydym yn cydnabod bod plant a phobl ifanc mewn rhannau daearyddol gwahanol o'r DU yn wynebu materion gwahanol o ran angen. Rydym felly'n defnyddio mewnwelediadau a data i lywio cynlluniau a blaenoriaethau Cenedlaethol a Rhanbarthol er mwyn targedu a mynd i'r afael â'r angen mwyaf o fewn yr ardal honno.

**Prosiectau uniongyrchol i blant a phobl ifanc** mewn cymunedau lleol, gan fynd i'r afael ag amrywiaeth eang o anghenion dybryd.

**Cefnogaeth sefydliadol a meithrin gallu** i alluogi'r sector sy'n gweithio i blant a phobl ifanc i gryfhau a gwella'r gwasanaethau hyn.

Bydd **gwaith strategol a gwaith sy'n seiliedig ar faterion** yn gwella'r systemau yn uniongyrchol y mae plant a phobl ifanc yn byw oddi mewn iddyn nhw.

## Ein model cyllido

### Pwy Fyddwn ni'n Ariannu

Rydym yn gwerthfawrogi mudiadau:

- Lle mae Plant a Phobl Ifanc yn cymryd rhan ystyrlon.
- Sy'n canolbwyntio ar neu sydd â chysylltiadau cryf o fewn y maes dan sylw.
- Sy'n cael eu harwain gan bobl o gymunedau ymylol lle bo modd, os oes materion yn eu hwynebu.
- Gellir dangos yn glir yr effaith neu'r gwahaniaeth ym mywydau plant a phobl ifanc.

### Dull Ariannu

Byddwn yn defnyddio gwahanol ddulliau ariannu, o fewn gwahanol raglenni, o ran pwysigrwydd:

- Ymateb yn uniongyrchol i angen.
- Canolbwyntio ar bartneriaethau strategol hirdymor.

Byddwn yn sicrhau bod y ddau ddull hyn yn cael eu plethu gyda'i gilydd mewn ffordd fwy eglur a bwriadol, o fewn ein prosesau dyfarnu grantiau.

### Mathau o Gostau

Byddwn yn archwilio gwahanol fathau o gostau sy'n briodol i'r math o raglen ariannu, gan gynnwys:

- Costau prosiect uniongyrchol
- Costau sefydliadol
- Costau datblygu

### Tu hwnt i ariannu

Byddwn yn ehangu'r effaith y gall gwaith y rhai sy'n derbyn ein grantiau ei chael, drwy ddefnyddio ein hasedau a'n proffiad fel un o brif gyllidwyr y DU.

Bydd hyn yn cynnwys:

- **Cydweithio –** cefnogi'r rhai sy'n derbyn ein grantiau i adeiladu rhwydweithiau ac i gydweithio.
- **Sgiliau -** rhoi mynediad i feysydd cymorth cyffredin.
- **Rhannu arferion gorau -** a hefyd adnoddau, i gefnogi mudiadau sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yn well.

# EIN STRATEGAETH DYFARNU GRANTIAU

**Yn BBC Plant mewn Angen, rydym yn credu bod pob plentyn a pherson ifanc yn haeddu'r cyfle i ffynnu ac i fod y gorau y gallan nhw fod.**

Mae'r strategaeth newydd hon yn nodi sut gallwn gyflawni ein gweledigaeth, fel dyfarnwr grantiau a chyllidwr. Cafodd ei gyd-greu gan bobl ifanc, ein timau, gwirfoddolwyr, y rhai sy'n derbyn grantiau a rhanddeiliaid allanol. Ac rydym yn falch o adeiladu consensws ar ein hunaniaeth, ein hegwyddorion a'r effaith rydym yn dymuno ei chael.

**Mae'r strategaeth yn:**

- Cynnig fframwaith a chyfeiriad clir ar gyfer ein timau dyfarnu grantiau yn ystod y tair blynedd nesaf.
- Thoi tryloywder i elusennau ac ymgeiswyr a gwybodaeth glir ynglŷn â sut rydym yn gwneud penderfyniadau codi arian.
- Ac i lawer o'n cefnogwyr a'r rhai sy'n codi arian, gan gynnwys y cyhoedd, mae'n helpu i feithrin perthynas gref o ymddiriedaeth ac atebolrwydd.

Mae hefyd yn mynegi'r ffyrdd y gall ein cyllid barhau'n berthnasol ac ymatebol yn y blynyddoedd i ddod. Ond sut bynnag a phryd bynnag y byddwn yn addasu, mae un peth yn glir: Y sbardun allweddol ar gyfer newid yn BBC Plant mewn Angen fydd wastad angerdd a phŵer plant a phobl ifanc, ac rydyn ni'n gwerthfawrogi'r fraint o weithio gyda nhw ac iddyn nhw.

**Fel cyllidwr, mae gennym bedair nodwedd unigryw:**

### Ni yw elusen y BBC

Fel rhan o'r BBC, rydym yn gallu cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd, gwybodaeth ac empathi ynglŷn â'r materion pwysicaf sy'n wynebu plant a phobl ifanc heddiw.

Rydym hefyd yn archwilio sut orau i ddefnyddio platfformau a sgiliau'r BBC i helpu'r ffordd rydym yn dyfarnu grantiau ac i gefnogi'r mudiadau rydym yn eu cyllido yn well

### Plant a Phobl Ifanc wrth wraidd ein gwaith

Mae lleisiau a phrofiadau plant a phobl ifanc yn hanfodol i'r ffordd rydym yn cynllunio ein ffordd o ariannu, ein penderfyniadau a'n prosesau dysgu.

Rydym yn eu hyrwyddo ac yn creu cyfleoedd sy'n cefnogi eu syniadau a'u harweinyddiaeth yn y DU.

### Rydym wedi ein gwreiddio ledled y DU ac yn lleol

Rydym yn gweithredu ar draws pob un o bedair gwlad y DU, gan flaenoriaethu dulliau lleol a gweithio'n galed i gyrraedd y plant a'r bobl ifanc mwyaf ymylol yn y wlad.

Ac rydym yn gwneud yn siŵr bod y dull amrywiol hwn sy'n canolbwyntio ar y lleol yn ganolog i bob agwedd ar ein prosesau gwaith.

### Rydym yn cynnig arweinyddiaeth feddylgar ym maes ariannu, ar gyfer plant a phobl ifanc yn y DU.

Mae pob un o'n penderfyniadau wedi'u seilio ar dystiolaeth, er mwyn sicrhau bod beth bynnag rydyn ni'n ei gefnogi yn cael effaith bositif a pharhaol ar blant a phobl ifanc.

Rydym yn dylanwadu ac yn creu newid. Rydym yn rhannu'r hyn a ddysgwyd, mewnwelediad a data gyda gweithwyr proffesiynol a'r cyhoedd. Rydym yn helpu i sefydlu'r ffyrdd gorau o ddarparu cymorth. Ac rydym yn helpu i newid y naratif am blant a phobl ifanc yn y DU.

## Ein pedair egwyddor ariannu

Mae BBC Plant mewn Angen yn gweithio'n galed i **ddyfnhau ei effaith fel cyllidwr ac i gynyddu gwerth y cymorth mae'n ei gynnig.** Gwnawn hyn drwy ganolbwyntio ar y bobl a'r cymunedau sydd angen ein cefnogaeth fwyaf, a thrwy adeiladu partneriaethau ystyrlon gyda'r mudiadau rydym yn eu hariannu. Byddwn wastad yn cydweithio gydag ymddiriedaeth, gostyngeiddrwydd a chwilfrydedd.

## Ein hegwyddorion ariannu

**Adeiladau ymddiriedaeth** - byddwn yn rhoi Ymddiriedaeth wrth wraidd ein gwaith o ddyfarnu grantiau.

| Rydym yn rhannu pŵer | Rydym yn gweithredu'n hyblyg | Rydym yn defnyddio ein llais | Rydym yn datblygu partneriaethau pwrpasol |
|---|---|---|---|
| Credwn mai plant a phobl ifanc sydd yn y sefyllfa orau i siapio ein gwaith, ac yn eu cynnwys yn fwy yn y broses o wneud penderfyniadau<br><br>Ac mae ein gwaith wedi'i dargedu at bobl ifanc o gymunedau amrywiol, gan gwmpasu nifer o ddiwylliannau, lleoliadau a meysydd o ddiddordeb gwahanol. | Rydym yn sicrhau bod ein prosesau cyllido wastad yn ymatebol, yn fanwl, yn hygyrch ac yn hawdd ei ddefnyddio.<br><br>Mae hyn yn caniatáu i fudiadau - mawr a bach - dreulio llai o'u hamser ar fiwrocratiaeth a mwy ar y pethau sy'n bwysig. | Fel elusen y BBC, rydym yn defnyddio ein platfform i hybu plant a phobl ifanc.<br><br>Rydym yn manteisio ar y sefyllfa hon i adeiladu empathi, ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r materion niferus sy'n wynebu plant a phobl ifanc. | Dim ond partneriaethau sy'n arwain at newid parhaol i blant a phobl ifanc rydym yn eu meithrin.<br><br>Gwnawn hyn drwy ddod â chymunedau, arbenigwyr, buddsoddwyr at ei gilydd a chaniatáu i blant a phobl ifanc eu hunain i siapio atebion. |

## Sut bydd yr egwyddorion hyn yn cael eu troi'n gamau gweithredu positif

| | | | |
|---|---|---|---|
| Bydd plant a phobl ifanc yn chwarae mwy o ran yn holl elfennau BBC Plant mewn Angen o ran gwneud penderfyniadau.<br><br>Byddwn yn rhoi sylw arbennig i gynnwys cymunedau ar y cyrion. Bydd ein holl brosesau a buddsoddiadau ariannu yn seiliedig ar fframwaith Amrywiaeth, Tegwch a Chydraddoldeb cadarn.<br><br>Byddwn yn blaenoriaethu gwaith gyda mudiadau sydd yn y sefyllfa orau gyda rhai materion - yn ogystal â'r rhai sydd â phresenoldeb lleol sydd wedi hen ennill eu plwyf. | Byddwn yn cynnig cyllid hyblyg, byr dymor a hirdymor i grwpiau sy'n cynnwys plant a phobl ifanc yn eu gwaith mewn ffordd ystyrlon.<br><br>Rydym yn deall bod gan fudiadau llai lai o amser ac adnoddau na rhai mwy. Byddwn yn creu prosesau syml i ymgeisio, rheoli a gwerthuso grantiau, ac i sicrhau bod ein gofynion yn gymesur i faint y mudiad.<br><br>Byddwn yn sefydlu gweithgareddau penodol sy'n gwella mynediad at gymorth a chyllid i amrywiaeth eang o fudiadau.<br><br>Ac er nad ydym yn ariannu gwasanaethau i bobl dros 18 oed, byddwn yn helpu'r rheini sy'n cefnogi pobl ifanc wrth iddyn nhw droi'n oedolion. | Byddwn yn gweithio'n agos, ond yn ddiduedd, gyda'n cydweithwyr yn y BBC, drwy ddefnyddio eu platfformau a'u sgiliau i archwilio'r ffyrdd gorau o ddylanwadu ar y naratif cymdeithasol o ran plant a phobl ifanc.<br><br>Byddwn wastad yn defnyddio data cadarn a mewnwelediad cymunedol i ddangos tystiolaeth o sut rydym yn gweithio, ac i addysgu cynulleidfaoedd am brofiadau plant a phobl ifanc.<br><br>Byddwn yn comisiynu ac yn cefnogi ymchwil pellach sy'n hybu polisi, arferion a chodi ymwybyddiaeth.<br><br>Pryd a ble mae ein proffiad yn berthnasol, byddwn yn dod yn fwy na chyllidwr yn unig – drwy ychwanegu gwerth i fudiadau drwy gydweithio a thrwy rannu sgiliau a gwybodaeth. | Mae gennym nodau clir, a byddwn yn datblygu partneriaethau sy'n cryfhau ac yn canolbwyntio effaith ein cyllid mewn meysydd strategol allweddol.<br><br>Byddwn yn cefnogi modelau ariannu sydd wedi'u halinio a modelau ariannu cyfunol.<br><br>Byddwn yn arbrofi gyda strategaethau mewn meysydd cyfoes - fel cyfathrebu digidol - a thrwy weithio gyda mudiadau sydd wedi ennill eu plwyf i siapio cymorth newydd ar gyfer plant a phobl ifanc.<br><br>Byddwn yn cryfhau'r sector cymorth drwy ddatblygu, cynnull a grymuso'r cydweithio ar lefel leol a chenedlaethol, a rhwng ein rhoddwyr a'r mudiadau a gefnogwn. |

## Ein model ariannu

| Pwy fyddwn ni'n ariannu | Dull ariannu | Mathau o gostau | Tu hwnt i ariannu |
|---|---|---|---|
| Rydym yn gwerthfawrogi mudiadau sydd:<br><br>• Wir yn deall y materion sy'n wynebu plant a phob ifanc ac y ceir tystiolaeth glir o'u heffaith bositif.<br><br>• Lle bo plant a phobl ifanc yn rhan ystyrlon o'r cymorth a ddarperir.<br><br>• Wedi'u lleoli yn yr ardal ddaearyddol lle mae'r gwaith yn digwydd (neu sydd â chysylltiadau cryf â hi).<br><br>• Lle bo modd, yn cael eu harwain gan bobl o'r cymunedau ymylol sy'n cael eu cefnogi. | Byddwn yn:<br><br>• Ymddiried yn y rhai sy'n derbyn ein grantiau i wneud yr hyn sydd orau i'w cymunedau a phobl ifanc, gan wasanaethu a chefnogi'r gwaith hwn lle bo angen.<br><br>• Canolbwyntio ar ddull 'portffolio cyfunol' wrth ddyfarnu grantiau, gan gydnabod natur ategol gwahanol fathau o gyllid.<br><br>• Cydnabod pwysigrwydd ymateb yn gyflym ac yn uniongyrchol i anghenion, yn ogystal â meithrin partneriaethau hirdymor a phartneriaethau strategol. Bydd y ddau ddull yn cael eu plethu'n glir gyda'i gilydd o fewn ein proses o ddyfarnu grantiau. | Byddwn yn archwilio mathau gwahanol o gostau, sy'n briodol i'r math o raglen gyllido:<br><br>• Bydd hyn yn cynnwys Costau Prosiect Uniongyrchol, Costau Sefydliadol, Costau Datblygu ac eraill.<br><br>• Am restr lawn a chynhwysfawr o'r rhain, ewch i'n gwefan. | Byddwn yn ehangu'r effaith y gall gwaith y rhai sy'n derbyn ein grantiau ei chael, drwy ddefnyddio ein hasedau a'n profiad fel un o brif gyllidwyr y DU.<br><br>Bydd hyn yn cynnwys:<br><br>• **Cydweithio –** cefnogi'r rhai sy'n derbyn ein grantiau i adeiladu rhwydweithiau ac i gydweithio.<br><br>• **Sgiliau -** rhoi mynediad i feysydd cymorth cyffredin.<br><br>• **Rhannu arferion gorau -** a hefyd adnoddau, i gefnogi mudiadau sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yn well. |

## Effaith ein cyllid

Mae ein dull strategol at ariannu yn mynd i'r afael â materion hirdymor ac yn diwallu anghenion hirdymor. Ac rydym yn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael y cymorth a'r gefnogaeth maen nhw'n eu haeddu.

| | |
|---|---|
| **Gweledigaeth strategol** | Drwy ddefnyddio mewnwelediad ac arbenigedd, rydym yn nodi'n barhaus y materion cenedlaethol sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc ar hyn o bryd. Yna bydd y meysydd eang hyn (fel iechyd meddwl neu dlodi) yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan fel Themâu Effaith, fel y gall mudiadau weld pa feysydd rydym yn benderfynol o'u hariannu ac i ffurfio partneriaethau â nhw. |
| **Dealltwriaeth o anghenion lleol a chenedlaethol** | Ar draws y DU, mae ein timau yn cynhyrchu Cynlluniau Rhanbarthol a Chenedlaethol, sy'n nodi'r materion mwyaf dybryd yn eu cymunedau lleol, ac mae hyn yn cyfrannu at ein strategaethau a'n huchelgeisiau ar gyfer y DU gyfan. Mae BBC Plant mewn Angen yn cyhoeddi'r cynlluniau hyn ar ein gwefan, fel bod darpar ymgeiswyr yn cael mwy o eglurder ynglŷn â'r hyn rydym yn ei ariannu ar hyn o bryd a'r hyn rydym yn canolbwyntio arno yn eu hardaloedd lleol – ac ar draws y wlad. |
| **Dull portffolio at gyllido** | Mewn ffordd bwrpasol, byddwn yn adeiladu portffolio o wahanol fathau o gyllid, i sicrhau bod ein gwaith yn strategol, yn effeithiol ac o fwy o fudd i nifer o grwpiau a chymunedau gwahanol. Mae hyn yn cydnabod bod angen pethau gwahanol ar wahanol faterion a mudiadau. Bydd yn osgoi dull 'un maint i bawb'. A bydd yn caniatáu i ni fod yn rhagweithiol, yn ymatebol ac yn ddefnyddiol fel cyllidwr - ar lefel leol a chenedlaethol. |
| **Ffordd o roi sefydlogrwydd** | Byddwn yn parhau i gefnogi mudiadau yn yr hirdymor – yn enwedig pan fydd hyn yn gofyn am waith parhaus er budd plant a phobl ifanc. Ond byddwn ni wastad yn gosod ffiniau clir ynglŷn â'n gwaith cyfredol a'n gwaith yn y dyfodol, fel y gallwn fuddsoddi'n effeithiol mewn mudiadau ac atebion newydd a datblygol. |

# PLANT MEWN ANGEN
# CHILDREN IN NEED

© BBC 2007 Reg. charity England & Wales no. 802052 and Scotland no. SC039557.
Rhif cofrestru'r elusen 802052 yng Nghymru a Lloegr a SC039557 yn yr Alban.